

## Crynodeb o'r Polisi - Polisi Llety Bloc

I'w ddarllen ar y cyd â'ch tystysgrif yswiriant

### Nodweddion a buddion

**Yswiriant ar gyfer atebolrwydd tenantiaid, offer gwasanaeth cyhoeddus ac eiddo'r unigolyn yswiriedig yn y cyfeiriad yn ystod y tymor.**

Yswiriant newydd am hen os byddwch yn colli eiddo o'ch cartref yn ystod y tymor, o achos lladrad (gan gynnwys mynediad heb dorri i mewn), tân, fandaliaeth, storm, llifogydd, pibellau wedi byrstio.

Yswiriant atebolrwydd gwerth hyd at £5,000 am gyfarpar a gosodiadau'r landlord yr ydych yn gyfreithiol gyfrifol amdanynt o dan eich cytundeb tenantiaeth.

Yswiriant yn erbyn lladrad pan fydd eich eiddo'n cael ei gludo'n uniongyrchol rhwng eich cyfeiriad cartref parhaol a'ch cyfeiriad yn ystod y tymor, ar ddechrau ac ar ddiwedd pob tymor y coleg.

Cyllid sy'n eich galluogi i orffen eich cwrs yn dilyn marwolaeth ddamweiniol neu anabledd llwyr a pharhaol rhiant neu warcheidwad.

Cost ailosod cloeon ac allwedd ar gyfer drws allanol o ganlyniad i ladrad neu ymgais i ladrata.

Hyd at £50,000 os byddwch yn mynd yn gwbl anabl, a hynny'n barhaol, yn sgil tân yn eich cartref yn ystod y tymor neu o ganlyniad i drais gweladwy gan ladron.

### Eithriadau neu gyfyngiadau sylweddol

Lladrad o ganlyniad i fynediad nad oedd yn cynnwys torri i mewn, pan nad oedd unrhyw un yn y cyfeiriad yn ystod y tymor, a phan oedd unrhyw ddrws neu ffenestr hygyrch ar y llawr gwaelod wedi cael eu gadael ar agor neu heb eu cloi.

Ni fydd yswiriant yn berthnasol ar gyfer y cyfeiriad yn ystod y tymor os na fydd neb yn byw yno am fwy na 30 diwrnod yn olynol.

Difrod damweiniol a cholled ddamweiniol.

Arian, allwedd, ffonau symudol, offerynnau cerdd, beiciau ac offer cyfrifiadurol cludadwy.

Difrod damweiniol i nwyddau'r landlord.

Fydd gofyn i chi dalu'r £25 cyntaf oni nodir yn wahanol ar eich tystysgrif yswiriant.

### Offer Cyfrifiadurol Cludadwy

(Yn y cyfeiriad yn ystod y tymor yn unig)

**Dewisol:** bydd yswiriant yn berthnasol os dangosir hynny ar y dystysgrif yswiriant

Yswiriant ar gyfer eich gliniadur a'ch offer cyfrifiadurol cludadwy yn eich cyfeiriad yswiriedig rhag colled neu ddifrod gan dân, llifogydd, storm, lladrad, dŵr yn gollwng ac achosion tebyg eraill.

Unrhyw ailadeiladu data meddalwedd.

Colled neu ddifrod sy'n digwydd y tu allan i'r cyfeiriad yn ystod y tymor.

Ar gyfer unrhyw offer cyfrifiadurol cludadwy nad yw'n eiddo i'r unigolyn yswiriedig.

Fydd gofyn i chi dalu'r £50 cyntaf oni nodir yn wahanol ar eich tystysgrif yswiriant.

### Eitemau nad ydynt yn rhai trydanol a gaiff eu cymryd allan o'r cyfeiriad yn ystod y tymor

(Pob risg)

**Dewisol:** bydd yswiriant yn berthnasol os dangosir hynny ar y dystysgrif yswiriant

Yswiriant ar gyfer eich gliniadur a'ch offer cyfrifiadurol cludadwy yn eich cyfeiriad yswiriedig rhag colled neu ddifrod gan dân, llifogydd, storm, lladrad, dŵr yn gollwng ac achosion tebyg eraill.

Colled neu ddifrod i eitemau sy'n eiddo i'r unigolyn yswiriedig os cânt eu gadael heb unrhyw un i ofalu amdanynt ar unrhyw adeg mewn man sydd â mynediad cyhoeddus.

Ffonau symudol, dannedd gosod, beiciau, offer cyfrifiadurol cludadwy ac eitemau trydanol cludadwy.

Lladrad o gerbyd modur wedi'i barcio.

Colled neu ddifrod i eitemau sy'n eiddo i'r unigolyn yswiriedig nad ydynt yn drydanol os cânt eu gadael heb unrhyw un i ofalu amdanynt ar unrhyw adeg mewn man sydd â mynediad cyhoeddus.

Fydd gofyn i chi dalu'r £25 cyntaf oni nodir yn wahanol ar eich tystysgrif yswiriant.

## Offer cyfrifiadurol cludadwy ac eitemau trydanol cludadwy

(Pob risg)

**Dewisol:** bydd yswiriant yn berthnasol os dangosir hynny ar y dystysgrif yswiriant

Yswiriant ar gyfer eich offer cyfrifiadurol cludadwy ac eitemau trydanol cludadwy rhag colled neu ddifrod damweiniol unrhyw le yn y DU ac am hyd at 30 diwrnod ledled y byd.

Unrhyw ailadeiladu data meddalwedd.

Ffonau symudol

Lladrad o gerbyd modur wedi'i barcio.

Colled neu ddifrod i offer cyfrifiadurol cludadwy neu eitemau trydanol cludadwy'r unigolyn yswiriedig os cânt eu gadael heb unrhyw un i ofalu amdanynt ar unrhyw adeg mewn man sydd â mynediad cyhoeddus.

Bydd gofyn i chi dalu'r £25 cyntaf oni nodir yn wahanol ar eich dystysgrif yswiriant.

## Difrod damweiniol i gynnwys yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

(Pob risg)

**Dewisol:** bydd yswiriant yn berthnasol os dangosir hynny ar y dystysgrif yswiriant

Yswiriant ar gyfer eiddo personol yn erbyn difrod damweiniol yn y cyfeiriad yn ystod y tymor.

Colled neu ddifrod i unrhyw eitem na nodir fel eiddo personol.

Difrod damweiniol i nwyddau'r landlord.

Colled neu ddifrod sy'n digwydd y tu allan i'r cyfeiriad yn ystod y tymor.

Bydd gofyn i chi dalu'r £25 cyntaf oni nodir yn wahanol ar eich dystysgrif yswiriant.

## Difrod damweiniol i offer cyfrifiadurol cludadwy yn y cyfeiriad yn ystod y tymor

(Pob risg)

**Dewisol:** bydd yswiriant yn berthnasol os dangosir hynny ar y dystysgrif yswiriant

Yswiriant ar gyfer eiddo personol rhag difrod damweiniol yn y cyfeiriad yn ystod y tymor.

Unrhyw ailadeiladu data meddalwedd.

Colled neu ddifrod sy'n digwydd y tu allan i'r cyfeiriad yn ystod y tymor.

Bydd gofyn i chi dalu'r £25 cyntaf oni nodir yn wahanol ar eich dystysgrif yswiriant.

## Difrod damweiniol i offer cyfrifiadurol cludadwy yn y cyfeiriad yn ystod y tymor ac yn adeiladau'r coleg

(Pob risg)

**Dewisol:** bydd yswiriant yn berthnasol os dangosir hynny ar y dystysgrif yswiriant

Yswiriant ar gyfer eich eiddo personol rhag difrod damweiniol yn y cyfeiriad yn ystod y tymor.

Unrhyw ailadeiladu data meddalwedd.

Colled neu ddifrod sy'n digwydd y tu allan i'ch cartref yn ystod y tymor ac adeiladau'r coleg.

Bydd gofyn i chi dalu'r £25 cyntaf oni nodir yn wahanol ar eich dystysgrif yswiriant.

## Gwybodaeth bwysig

Mae eich yswiriant yn ddilys am 12 mis ar ôl y dyddiad cychwyn oni ddangosir yn wahanol ar eich dystysgrif polisi. Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys nodweddion allweddol eich polisi yswiriant. Nid yw'n cynnwys y telerau ac amodau llawn, sydd i'w gweld yng ngeiriad eich polisi. Os ydych am weld copi o'r ddogfennaeth lawn ar gyfer eich polisi, ewch i [www.endsleigh.co.uk/reviewcover](http://www.endsleigh.co.uk/reviewcover).

Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn darllen yr adrannau ar **eithriadau allweddol, cyfyngiadau allweddol ac unrhyw delerau ychwanegol sy'n berthnasol i'ch polisi.**

## Gwneud hawliad

Os bydd angen i chi wneud hawliad, ewch i [www.endsleigh.co.uk/reviewcover](http://www.endsleigh.co.uk/reviewcover) am fanylion ynglŷn â sut i gyflwyno hawliad ar-lein. Fel arall, cewch ein ffonio ni ar 0800 923 4042 i ddweud wrthym am eich hawliad.

## Sut i wneud cwyn

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn am eich polisi neu am y gwasanaeth, gallwch gysylltu â ni dros y ffôn ar 08000 858698 neu ysgrifennu atom yn yr adran cydlynu â chwsmeriaid, Gwasanaethau Yswiriant Endsleigh Cyf. Shurdington Road, Cheltenham, GL51 4UE. Am unrhyw faterion sy'n ymwneud â hawliadau, cyfeiriwch at eich gohebiaeth hawliadau am fanylion cysylltu. Mae gennych hawl i gysylltu â'r yswiriwr/yswirwyr yn uniongyrchol. Os na chaiff eich cwyn ei datrys yn foddhaol, mae gennych hawl i ofyn i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol adolygu eich achos. Ni fydd cysylltu â'r Ombwdsmon yn effeithio ar eich hawliau i gymryd camau cyfreithiol yn ein herbyn.

## Hawliau canslo

Rydym yn gobeithio eich bod yn fodlon â'r yswiriant y mae'r polisi hwn yn ei ddarparu. Fodd bynnag, mae gennych hawl i'w ganslo o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn y polisi. Sylwch na fydd yr hawl hon yn berthnasol os ydych eisoes wedi gwneud hawliad o dan eich polisi.

## Cynllun iawndal

Os na all Gwasanaethau Yswiriant Endsleigh Cyf. gyflawni ei rwymedigaethau, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael iawndal gan y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gweler rhagor o wybodaeth yn nogfen geiriad eich polisi o dan y pennawd "Ein hymrwymiad i chi".

**FFEITHIAU ALLWEDDOL I Yswiriant Eiddo Myfyrwyr: Crynodeb o'r Yswiriant** Mae yswiriant Eiddo Myfyrwyr yn gynnwys Gwasanaethau Yswiriant Endsleigh Cyf. Caiff Gwasanaethau Yswiriant Endsleigh Cyf. ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Gellir gwirio hyn ar gofrestr yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol drwy fynd i'w gwefan: [www.fca.gov.uk/register](http://www.fca.gov.uk/register) Endsleigh Services Limited. Rhif Cwmni: 856706 Cofrestrwyd yn Lloegr yn Shurdington Road, Cheltenham Spa, Swydd Gaerloyw, GL51 4UE. Trefnir y polisi yswiriant hwn gan Wasanaethau Yswiriant Endsleigh Cyf. gyda Grŵp Yswiriant Zurich, sef cwmni (cyfyngedig) cofrestredig yn Lloegr rhif 354568.

Mae eich Yswiriant Llety Bloc Endsleigh wedi'i warantu gan Yswiriant Zurich plc. Zurich House, Ballsbridge Park, Duly 4, Iwerddon. Mae Yswiriant Zurich plc wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan Fanc Canolog Iwerddon ac yn destun rheoliad cyfyngedig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae manylion ynglŷn â maint ein rheoliad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gael ar gais. Rhif Cofrestr yr FCA: 203093.